DINESYDD
Hydref
PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1984
RHIF 110

# PUMED YSGOL AR Y GORWEL?

MAE SEFYDLU PUMED ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd bellach yn flaenllaw ar agenda Awdurdod Addysg De Morgannwg. Mewn cyfarfod ar 27 Mehefin gofynodd yr is-bwyllgor mynediad i'r Pwyllgor Addysg ystyried darpariaeth addysg gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd yn y dyfodol, a hynny ar frys. A phan gyfarfu'r Pwyllgor Addysg ar 24 Medi derbyniwyd yr argymhelliad heb drafodaeth.

Mae'r cyngor yn ymrwymiedig i ddarparu addysg Gymraeg yn ôl y galw, a cheir addewidion o gefnogaeth i'r bumed ysgol gan y Blaid Lafur a'r Ceidwadwyr.

Dywed y Cynghorydd Emyr Currie-Jones fod gweithgor Cymraeg y cyngor ar hyn o bryd yn trafod y sefyllfa yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. "Mae'n amlwg",meddai,"fod y galw wedi cynyddu ym Mhenarth a'r Bari yn ogystal â Chaerdydd, a bwriad yr awdurdod yw darparu addysg Gymraeg i bawb sydd ei angen".

Dywed y Cynghorydd Peter Meyer i'r Ceidwadwyr gytuno'n llwyr â pholisi presennol yr awdurdod, a'u bod yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu pumed ysgol gynradd yn y brifddinas. Ond ychwanegodd nad oedd y Ceidwadwyr yn rhwym o gytuno â'r Blaid lafur ar fater lleoliad.



Y PLANTOS GADD EU GWRTHOD:Jodi Evans a'i mam Linda; Hannah Chubb a'i mam Kate; Angharad Gibbs a'i mam Christine; Mrs. Rachel Morgan a'i hŵyr Steffan a Eunice Jones a'i mab Dylan.

Mae'r ddwy blaid hefyd yn derbyn mai goblygiad cynnydd yn y sector cynradd yw ehangu addysg uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd. Os sefydlir pumed ysgol, ac os ceir cynnydd ym Mro Morgannwg, bydd yn rhaid ychwanegu at adnoddau Glantaf, a hynny naill ai trwy ehangu, rhannu'r ysgol rhwng dwy safle neu sefydlu ysgol arall.

Fel y gŵyr rhieni'r sir yn dda nid yw melinau'r awdurdod yn troi'n arbennig o gyflym, ond mae'n debygol y gwelir argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Addysg cyn y Nadolig.

Yn y cyfamser parhau mae'r helynt ynghylch mynediad i ysgol Coed-y-Gof. Ar waethaf buddugoliaeth Dafydd Hywel a'i deulu mae pump o blant wedi'u gwrthod. Mae rhieni pedwar ohonynt wedi apelio yn erbyn y penderfyniad. Ond oherwydd oedran ei merch, Hannah, does gan Kate Chubb dim hawl apêl.

Cynhaliwyd gwrandawiad apêl ar 22 Medi ond wedi tair awr o wrando'r achos gwrthwynebwyd presenoldeb Mrs.Olwen Watkin ar y panel gan gyfreithwyr yr awdurdod. Cynhelir cyfarfod arall o'r Pwyllgor Apêl, gydag aelodau hollol newydd ar Hydref 3 pan fydd y rhifyn hwn o'r Dinesydd yn y wasg. Gallwn ond obeithio, er lles y plant hynny a fydd wedi colli mis cyfan o ysgol erbyn hynny, y ceir canlyniad ffafriol ac y daw'r bennod drist hon yn hanes ein hysgolion i ben unwaith ac am byth.

TU MEWN:

Amddiffyn Sifil? Tud. 3
Ateb CBC i'r Dinesydd. Tud. 4
Wyt ti'n cofio 'Steddfod '65? Tud. 7
Parabl Parri. Tud. 9
Tymor Newydd y Cymric. Tud 10

# GOLYGYDDOL

Dywed Prif Gwnstabl De Cymru fod y sawl sy'n ystyried adroddiad adroddiad yr heddlu i'r cwynion â wnaed yn sgil yr achos cynllwynio a gynhaliwyd yn Llys y Goron Caerdydd ym 1982 yn "whitewash" neu'n "cover-up" yn honni fod yna gynllwyn yn cynnwys swyddogion yr heddlu, y swyddog a ymchwiliodd i'r cwynion, Cyfarwyddwr yr Erlyniadau Cyhoeddus a'r Prif Gwnstabl a'i uchel swyddogion.
Wedi'r achos gwrthodwyd pob cais am ymchwiliad cyhoeddus i ymddygiad yr heddlu a bu'n rhaid bodloni ar ddwy ymchwiliad bur wahanol. Ymchwiliad agored "answyddogol" Ymgyrch Cymru Dros Hawliau Gwleidyddol a Sifil, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Gifford ac ymchwiliad mewnol, cyfrinachol Prif Gwnstabl Cynorthwyol Lerpwl, Peter Rawlinson.
Nid yw ymchwiliad answyddogol, waeth pa mor drylwyr a theg, yn cario'r un pwysau ag un cyhoeddus yn enwedig felly pan fo'r heddlu yn gwrthod cyflwyno unrhyw dystiolaeth. Ar y llaw arall, mae gofyn i'r heddlu i ymchwilio i gwynion yn erbyn eu swyddogion eu hunain fel gofyn i reithgor o garcharorion ddyfarnu mewn llys barn.
Gwnaed 152 o gwynion yn erbyn yr heddlu. Gwrthodwyd 145 ohonynt ac ni ddisgyblwyd yr un heddwas. Wrth gyhoeddi'r newyddion da taflodd David East sen ar adroddiad Gifford gan ddweud y byddai'n bryderus pe baent wedi derbyn tystiolaeth gan 400 o bobl, ond roedd 41 o bobl gyda "rhagfarnau" yn erbyn yr heddlu yn nifer digon bychan i'w diystyru.
Nid yw cyfiawnder achos yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n ei gefnogi. Yn ol y Barnwr yn yr achos Mr Ustus Farquharson tasg y rheithgor oedd penderfynu pwy oedd yn dweud y gwir a phwy oedd yn dweud celwydd - un ai'r diffynyddion yntai'r heddlu.
Roedd dyfarniad y Rheithgor yn unfrydol. Ac fel y dywed Robert Griffiths, un o'r 5 a gafwyd yn ddi-euog o bob cyhuddiad. "yr unig farn annibynnol ar y dystiolaeth oedd honno a roddwyd gan y rheithgor fis Rhagfyr".
Os mai'r dewis yw gwrthod barn deuddeg o bobl a ddewiswyd ar hap i farnu'r achos neu gyhuddo'r heddlu o gynllwyn, yna rhaid dweud bod yna gynllwyn yn cynnwys aelodau anhysbus o'r heddlu.
Mae methiant yr ymchwiliad mewnol i ganfod unrhyw fai ar ymddygiad y sawl a fu'n gyfrifol am yr ymchwiliad bomiau yn dystiolaeth cwbl argyhoeddiadol nad yw'r heddlu'n ffit i ymchwilio i gwynion yn eu herbyn nhw'u hunain. Os ydy'r heddlu yn Ne Cymru i gadw unrhyw fath o gredinedd rhaid cyhoeddi adroddiad Rawlinson ar unwaith ac er lles y cyhoedd a'r heddlu fel ei gilydd dylid sefydlu corff annibynnol i ymchwilio i gwynion yn erbyn yr heddlu.

---

# Y CALENDR

(562816)

HYDREF

8 - MERCHED Y WAWR, CAERDYDD. 7.30 p.m. Festri Capel Minny Street, Cathays. Canrif o hanes Cathays.

10 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR, TY'R CYMRY, 11 HEOL GORDON. 8 o'r gloch, yng ngofal Iorwerth Morgan.

13 - EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, CAERDYDD A'R CYLCH '85. Rhialtwch Rhiwbeina - Eto! Noson o Fwyd, Diod ac Adloniant yn Neuadd y Sgowtiaid, Heol y Bont, Rhiwbeina, 8 - 11.30 o'r gloch. Tocyn £4 oddi wrth Bwyllgor Cymuned Rhiwbeina.

15 - CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD. Clwb Ifor Bach. 8 p.m. 'Diffygion y thyroid yn y newydd-anedig'. Dr. Ieuan Hughes, Coleg Meddygol Prifysgol Cymru.

18 - Cymdeithas Gymraeg Radur yng Ngwesty Tŷ Nant, Treforgan, am 8 o'r gloch. Siaradwr: Islwyn Jones

20 - CND - Rali tu allan i'r ROF. Mwy o fanylion o'r Siop Heddwch. (489260).

26 - CYMDEITHAS YR IAITH. 9 p.m. ymlaen. Jim O'Rourke a'r Hoelion 8. Clwb Ifor Bach. £1.50.

31 - EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, CAERDYDD A'R CYLCH '85. Sioe Ffasiynau yn Neuadd y Ddinas gan Gwmni Ferda's. 7.30 ar gyfer 8 p.m. Mynediad trwy docyn £2.50 yn cynnwys gwydraid o win. Cor telynau Glantaf. (Tocynnau wrth Mrs Anne Rees, (Ffon: Caerdydd 482922) neu Mrs Catherine Thomas (Ffon 913-4530)

31 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro yng ngwesty Mount Sorrel am 7.30. Siaradwr: Dewi Bebb.

TACHWEDD

3 - Cyngerdd gan Gerddorfa Siambr Caerdydd - Eglwys yr Holl Saint Penarth. Perfformir gweithiau gan Nielson, Bach, Dvorak a Tchaikorsky. Arweinydd: William Salaman. Unawdydd: James Barton.

12 - MERCHED Y WAWR, CAERDYDD. 7.30 p.m. Festri Capel Minny Street, Cathays. Noson o ffilmiau.

14 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR TY'R CYMRY, 11 HEOL GORDON. 8 o'r gloch, yng ngofal Mr. John Rees.

18 - EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, CAERDYDD A'R CYLCH '85. Cymuned Penylan, Cymanfa Ganu yng Nghapel Minny Street. 8 o'r gloch. Mynediad trwy raglen £1.00. Arweinydd:- Alun Davies.

19 - CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD. Clwb Ifor Bach. 8 p.m. 'Defnyddio Pelydrau Syncrotron' - Yr Athro Robin Williams, Adran Ffiseg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

22 - Cymdeithas Gymraeg Radur yng Ngwesty Tŷ Nant, Treforgan, am 8 o'r gloch. Siaradwr: Y Dr. Geraint Jenkins. (Curadur yr Amgueddfa Diwydiant a Môr).

30 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro yng ngwesty Mount Sorrel am 7.30. Noson y gwragedd. Siaradwraig: Menna Gwyn.

---

# APÊL

MAE'N GAS GENNYM GODI'R MATER TRA BOD CYMRY CAERDYDD YN CAEL EI BLINGO YN CODI ARIAN I EISTEDDFODAU YR URDD. OND ONI CHWYDDIR COFFRAU'R DINESYDD NI FYDD GAN Y BRIFDDINAS EI PHAPUR BRO ERBYN BYDD BYRTI BWS WEDI DOD I BEN EI DAITH. CYFRANIAD I'CH DOSBARTHWR AR UNWAITH.

# RHIFYN NESA

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Tachwedd at Shan Emlyn, 3 Llandennis Ave., Cyncoed, Caerdydd, CF2 6JD erbyn Hydref 18.

Mae bwrdd Golygyddol Y Dinesydd yn cadw'r hawl i dalfyrru unrhyw erthyglau neu lythyrau sy'n cael eu cyhoeddi yn y papur.

# RHYWBETH AT DDANT PAWB

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu aelodau Cell Caerdydd - Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn brysur yn dosbarthu cylchgronau Cymraeg yn ysbytai, meddygfeydd/deintyddion a siopau trîn gwallt ardal Caerdydd. Bu'r ymateb yn galonogol iawn, a hyderwn y byddwn yn gwneud yr un fath eto yn y dyfodol, gyda chymorth a chyd-weithrediad y mudiadau gwirfoddol yn yr ysbytai.




---

COFIWCH: gallwch CHI gynorthwyo gyda'r gwaith yma drwy roi hen gylchgronau Cymraeg yn eich meddygfa neu ystafell aros deintydd neu siop gwallt. Gall olygu bod Cymry Cymraeg yn darllen cylchgrawn Cymraeg am y tro cyntaf, a Chymru di-Gymraeg yn gweld bod iaith arall yn bodoli.

Bydd Cell Caerdydd - Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn parhau gydag ymgyrchoedd tebyg i gyfrannu tuag at ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yng Nghaerdydd.

Dewch draw i'n cynorthwyo yn y cyfarfod nesaf! (Clwb Ifor Bach - 8 p.m. Nos Wener, 5ed Hydref '84.



# AMDDIFFYN SIFIL?

"Byddai sustem bancio'r wlad yn peidio a bod yn effeithiol yn ystod ymosodiad niwcliar!" Dyma un 'ffaith' o ddogfennau cudd y llywodraeth a ddatgelwyd gan Duncan Campbell (O'r 'New Statesman') mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Medi o dan y teitl 'Amddiffyn Sifil - fe'ch twyllir chi'.

Rali gyhoeddus ydoedd rhan o weithgarwch ledled Prydain yn erbyn cynlluniau amddiffyn sifil y llywodraeth. 'Roedd rhyw chwech o siaradwyr i gyd, ond yn sicr Duncan Campbell oedd yn rhagori gyda dogfennau llywodraethol yn dangos i ni y gwahaniaeth rhwng yr hyn a ddywed y wasg a'r gwirionedd tu ôl i ddrysau cudd Llundain!

Dangosodd fap yn darlunio y ffyrdd i'w cau mewn ymosodiad niwcliar - a ninnau eisoes wedi gweld awgrym cryf o hyn gydag ymgyrch y glowyr!

Darllenwyd o 'lyfr jôc CND' - 'Protect and Survive' - y llyfryn sy'n dweud wrthym am fynd dan fwrdd neu hyd yn oed rhedeg oddi wrth ffrwydriad niwcliar! Yn ôl astudiaeth gan Duncan Campbell - nid yw'r llyfryn yn cael ei grybwyll yn y 'llywodraeth' bellach, a'i fod yn un o gamgymeriadau y llywodraeth. Byddai dilyn cyfarwyddiadau'r llyfryn yn golygu mwy o bobl yn sâl ar ôl rhyfel - mwy o fwrn ac anhawster i'r llywodraeth wedyn!

Mewn gwirionedd, ffars yw'r holl beth, gydag amcangyfrifon swyddogol y llywodraeth ond yn ganran o holl effeithiau rhyfel niwcliar - ni ŵyr neb fyddai effaith bomiau ar raddfa dipyn mwy na thrychineb Hiroshima.


Anodd croniclo areithiau pob un o'r siaradwyr eraill, ond dyma rhai o'r pwyntiau a godwyd:-

1) bod angen mwy o ddealltwriaeth o Rwsia a'i phobl a'u derbyn fel pobl, yn hytrach na chredu popeth ar y cyfryngau.
2) gwaith pwysig rhai cynghorau lleol, e.e. wythnos heddwch De. Morgannwg.
3) ffolineb gwariant ar arfau efo dioddefaint erchyll yn parhau yn y trydydd byd.
4) Gaeaf niwcliar - heblaw am effeithiau union ryfel niwcliar, profwyd bellach y byddai llwch y bomiau yn atal yr haul rhag disgleirio ac yn creu oes iâ arall drwy'r wlad.

Ffeithiau digon trist a diflas mewn noson tebyg - ond y peth pwysig, yw i'r ffeithiau ein hysgogi ni ymhellach i ymgyrchu dros heddwch yng Nghaerdydd a thrwy Gymru gyfan.

Un agwedd drist arall i'r noson, yw na siaradwyd gair o Gymraeg gan un o'r siaradwyr er i'r noson gael ei threfnu gyda chefnogaeth CND Cymru. Gobeithio mai nid dyma batrwm cyfarfodydd y dyfodol yng Nghaerdydd a thrwy Gymru gyfan.

Meinir Vittle



# LLYTHYRAU



79 Lynmouth Crescent,
Tredelerch,
Caerdydd.

Annwyl Gyfeillion,

Diolch am yr ysgrif ar ddalen flaen y rhifyn diwethaf ac am y golofn olygyddol.

Mae'n syndod bod yr Awdurdod Darlledu Annibynnol yn medru bod mor glaear a dienaid e berthynas i agwedd CBC at y Gymraeg. Onid oes yna ddyletswydd arbennig tuag at yr iaith ar ran cwmni sy'n gweithredu yng Nghymru, heb sôn am weithredu yn ei phrifddinas? Ar y cychwyn 'roedd agwedd y cwmni at y Gymraeg yn gadarnhaol ond, bellach, trodd yn grintachlyd, onid yn sarhaus, ac ymddengys mai'r gorau a allwn ei ddisgwyl oddi wrth yr Awdurdod Darlledu yw cadw llygad ar y sefyllfa dros amser amhenodol. Diolch yn dalpia am fawr o ddim byd!

Am sefyllfa teuluoedd y glowyr yr ydych yn llygad eich lle. Mae'r angen yn amlwg beth bynnag yw barn berson am y streic.

Amgaeaf £10, ar ran y ddau ohonom, at gronfa'r Dinesydd. Mae'n fwy o syndod fyth nad yw llu o Gymry'r ddinas hon yn barod i gyfrannu'n anrhydeddus tuag at gynnal yr unig bapur Cymraeg a gynhyrchir yma. Diamau bod nifer sylweddol o bobl cefnog yn ei ddarllen yn gyson heb ystyried am eiliad bod eraill yn talu drostynt. Diffyg meddylgarwch, mae'n debyg. Gobeithio hynny'n wir.

Rhag cloi ar nodyn sur dyma ddiolch o galon i chi, y ffyddlon rai, sy'n cynhyrchu'r Dinesydd o rifyn i rifyn yn dawel a diffwdan. Pob hwyl i'r dyfodol.

Yn bur,

MEREDYDD EVANS.

---

Cwmni Darlledu Caerdydd,
Tŷ Radio,
Cei Gorllewin
y Gamlas,
Caerdydd.

I'r Golygydd,

Darllenais â diddordeb eich erthygl "CBC-Cic i Bobl Caerdydd". Ers ymadawiad Jeff Winston fe'm apwyntiwyd i'n Bennaeth Rhaglenni.

Er fod dau o'r prif gyflwynwyr wedi gadael CBC pan ddaeth eu cytundebau i ben, mae Alan Ross.. oedd wedi penderfynu symud i orsaf radio arall nawr yn dal gyda ni. Mae Phil Suarez yn gyflwynydd profiadol a phoblogaidd iawn ac mae wedi bod gyda CBC ers y cychwyn cynta. Ef sydd nawr yn cyflwyno'n rhaglen ganol prynhawn gan ddwyn cryfder i'r amserlen rhaglenni newydd. Dyw'r 'bylchau mawr' mewn rhaglenni yr oeddech yn son amdanynt felly ddim yn bod.

Yn ystod y bedair blynedd y bu CBC mewn bodolaeth dysgwyd nifer o wersi. Un o'r rhai mwyaf gofidus, ond mwyaf pwysig, yw fod yn rhaid i gwmniau radio annibynnol addasu eu hunain i amgylchiadau'r farchnad ....po faint ganmoladwy bynnag mae'r dewisiadau eraill yn ymddangos. Mewn termau ymarferol mae hyn yn golygu fod yn rhaid i gwmniau... mewn byd cyfryngau sy'n tyfu o hyd....dynhau eu gwregys am ysbaid gan gynhyrchu'r arian fydd yn galluogi'r amserlen rhaglenni i ehangu unwaith eto.

Mae'n ddiddorol nodi ymhlith y cwynion huotlaf ac amlaf (a gafwyd) am gynnyrch yr orsaf oedd rhai gan bobl wedi'u poeni gan benawdau newyddion Cymraeg. Fodd bynnag ni dynnwyd y rhain oddiar yr amserlen rhaglenni nes i amgylchiadau ariannol orfodi eu diwedd dros dro. Braidd y gellid galw hyn yn bolisi sydd am roi'r Gymraeg mewn 'ghetto'.

Yn olaf nid yw cyllid presennol CBC yn caniatau, fel yr ydych chi'n awgrymu, ail-gyflwyno rhaglenni Cymraeg bob nos ar gost o ugain punt yr wythnos. Nid yw costio rhaglenni mor syml a hynny.

Fodd bynnag, fe fyddwn yn edrych unwaith eto ar raglenni Cymraeg ac ehangu ein ymrwymiad iddynt ar yr achlysur gynta bosib. Tan hynny, fe fydd yn rhaid i ni, yn anffodus, fyw o fewn terfynau'r amgylchiadau presennol.

Yn y cyfamser, fe fyddai o ddiddordeb mawr gennyf glywed gan unrhyw un o'ch darllenwyr sydd, efallai a diddordeb mewn sefydlu grwp trafod i awgymru sut y gall rhaglenni Cymraeg ddatblygu yn y dyfodol ac hyd yn oed rhoi help drwy ddarparu deunydd ar gyfer rhaglenni.

Yr eiddoch yn gywir,

WILL WALDRON,
Rheolwr Rhaglenni.

---

Cwmbryn
Llysfaen
Caerdydd

Annwyl Gyfeillion,
Dyma gyfraniad at y glowyr gan obeithio ei fod ddim yn rhy hwyr yn ateb i'r erthygl yn y Dinesydd ddaeth i'm llaw yn y capel ddoe.
Fel prifathrawes gynt, cofio am y plant fydda' i bob amser a dyfalu i bwy y gallwn anfon arian. Dyma fi yn eistedd yn gyfforddus yn y 'sun-lounge' ac yn darllen Y Dinesydd - ateb i weddi!

Dymuniadau,
Hannah Alexander.

# PYTIAU

CYLCH CINIO CYMRAEG Y BARRI A'R FRO.

Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod yng Ngwesty Mount Sorrel ar y Nos Fercher olaf bob mis. Dafydd Jones o Ddinas Powis, prifathro Ysgol Gyfun Rhydfelen, yw'r cadeirydd eleni.

Os am rhagor o fanylion cysylltwch a'r ysgrifennydd diwyd a doniol, Mr. Islwyn Jones. (Ffôn: Caerdydd 594533).

CYMDEITHAS GYMRAEG RADUR.

Mae manylion am gyfarfodydd y Gymdeithas i'w cael yn y Calendr. Os hoffai rhywun o'r cylch gael rhagor o fanylion cysyllter a'r ysgrifenyddes, Marion Lewis ar Caerdydd 842646.

Y CLWB CADW'N HEINI.

Ar y 24ain o Fedi dechreuodd y Clwb ar ei ddegfed blwyddyn ac mae dau neu dri o'r aelodau gwreiddiol yn dal i lusgo o gwmpas y gampfa yn ysgol Glantaf bob Nos Lun. Mae'r Clwb yn mynd o nerth i nerth o dan ofal Lynn Davies ac os oes rhywrai'n teimlo fel ystwytho tipyn o'u cymalau mae croeso iddynt ymuno a'r ffyddloniaid. Manylion pellach gan Lynn Jones (Ffôn: 562816).

YSGOL FEITHRIN LLANDAF.

Mae'r grwp Mam a'i Phlentyn wedi ail-gydio. 'Rydym yn cwrdd bob p'nawn Gwener, am 2 o'r gloch yng Nghanolfan yr Urdd. Ac mae 'na le i ragor o blant yn yr ysgol feithrin hefyd. Dewch draw i'm gweld rywdro, neu ffoniwch Sheila (30042) neu Julia (42907).

**COLOFN**
**Shân Emlyn**

Fis yn ôl bum yn un o saith yn cynrychioli Cymru mewn cynhadledd yn Copenhagen. 'Roedd yn brofiad unigryw. Cynhadledd oedd hi i leiafrifoedd a rhanbarthau o Ewrop i gael trafod 'i problemau a'i dyheadau 'Roedd yno gynrychiolwyr o sawl gwlad a rhanbarth - o Lydaw, Gwlad y Basgiaid, Catalonia, Corsica Fflandrys, Friesland ac eraill. Cawsom bedair darlith swmpus a chynhwysfawr bob dydd a thrafodaeth yn dilyn. Ar ddiwedd y gynhadledd aethom i ymweld â Bornholm - ynys sydd wedi cael mesur o ddatganoli gan Denmarc, i weld sut oedd y system yn gweithio yno.

Agoriad llygaid oedd sylweddoli bod 'na genhedloedd bach eraill, a rhanbarthau sydd â'r un dyheadau a'r un agweddau â ninnau. Cyffrous oedd sylweddoli 'i bod hi'n haws i mi deimlo'n Ewropead nag yw hi mi deimlo'n Brydeinwraig. Mae'r teimlad yma'n haws i Gymro ei amgyffred nag yw hi i Sais. Cafodd Cymru gryn sylw yno, soniwyd am Fudiad Ysgolion Meithrin, Ysgolion Cymraeg ac wrth gwrs S4C. Mae 'na gymaint y carwn i sôn amdano - ond bodlonaf ar ddyfynnu o ddarlith wefreiddiol gŵr o Wlad y Basg ar hawliau dynol. Honnai mai creadigaeth penna mwya dyrchafol unrhyw genedl yw 'i hiaith "o ganlyniad y mae gan aelodau o bob cenedl yr hawl, sy'n wir hawl ddynol i amddiffyn, ac i ddatblygu 'i hiaith a thrwy hynny warchod 'i diwylliant. Mae'r hawl honno yn hawl foesol ac yn hanfodol bwysig i dŵf meddwl ac enaid pob unigolyn o fewn y genedl honno".

Briwsion sydd yn y golofn hon - profwyd manna helaeth yno - ond dyma ddiwedd fy ngofod, am y tro.

# VAN GOGH — GWYRDD A GWYN

Yr ail yn y gyfres o adroddiadau gan bwyllgorau Eisteddfod yr Urdd 1985


Oes wir, mae yna fwy i orchwyl y Pwyllgor Celf a Chrefft na pheintio un o fysus Caerdydd yn goch, gwyrdd a gwyn. Ers y cyfarfod cyntaf draw yn nechrau mis Mawrth 1982, mae'r hen injian yn dal i rygnu ymlaen, ambell i blwg wedi'i newid ar y ffordd ac mae digon o oelio cyson (three star Nescafe) wedi cadw'r olwynion i droi. Mae'r hen gondyctors bachog wedi bod yn casglu arian, tua £2,000 hyd yn hyn, drwy drefnu parti gwin a chaws, gwerthu siwmperi, cardiau Nadolig a lluniau gan arlunwyr adnabyddus. Pan ddaw'r condyctors heibio y tro nesaf fe fyddant yn gwerthu cardiau cyfarchion, papur lapio anrhegion a labeli Nadolig. Peidiwch â cholli'r bws!

Prif gyfrifoldeb y pwyllgor wrth gwrs oedd llunio'r testunau ac, ar ôl i'r bws gyrraedd garej Soffia, gosod yr arddangosfa. A beth fydd yn yr Arddangosfa? Wel, gobeithir gweld anifail dychmygol ochr yn ochr â char dragster, cynheswr coesau, teipiadur llipa, het anhygoel, a'r cyfan "ar feysydd braslawn Tir Na'Nog". Conffiwsd? Wel fyddwch chi ddim ar ôl darllen y rhestr testunau - dim ond 90c o'ch siop leol.

Mae Caerdydd, fel y gwyddoch, yng nghanol cyfnod o newid gyda ffyrdd newydd llydan i'w gweld yn torri drwy'r tir. Fe fu'r pwyllgor yn gyfrifol am droi trwyn yr hen fws trwm, cyndyn ar brydiau, i gyfeiriad y ffyrdd newydd hyn. Yn gyntaf, fe fydd yna newid yn nhrefn y beirniadu. Y tro hwn rhoddir hawl i'r beirniaid sirol ymhob cystadleuaeth yrru'r nifer o weithiau sydd yn eu tyb nhw yn deilwng, ymlaen i'r genedlaethol, yn hytrach na dewis un yn unig o bob adran.

Gan y golyga hyn fod llawer mwy o waith yn cyrraedd Caerdydd, penderfynwyd cyfuno ambell i gystadleuaeth. Er na cheir cystadleuaeth arbennig i ffotograffwyr, er enghraifft, fe welir yn y testunau fod yna ddigon o gyfle i ffotograffwyr ddangos eu gwaith mewn adrannau eraill. Ein gobaith hefyd yw, pan y dowch at ddrws ein pabell ddeniadol, y cewch gatalog lliwgar i'ch tywys drwy'r arddangosfa.

Pwy sy'n dweud nad oes newid i'w gael ar fysus Caerdydd?




**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau*

*Yswiriant Bywyd*

*Pensiynau*


NOS LUN
Fo a Fe 1 Hydref –
Minafon 17 Medi –
Torri Gwynt 12 Tachwedd –
NOS FAWRTH
Byd Cerdd 11 Medi –
Dramâu Hir 30 Hydref –
Portread of Rachel Thomas 23 Hydref
NOS FERCHER
Reslo 17 Hydref –
Saith Canhwyllbren Aur 12 Medi –
Y Byd ar Bedwar
Y bûm yn gwylio'n llawen
Wyddwn i ddim fod posib cael gwell
Nes daeth…
NOS IAU
Yr Alcoholic Llon 1 Tachwedd
O Benllyn i Bendraw'r Byd 4 Hydref –
Teulu-ffôn 8 Tachwedd –
NOS WENER
Pobol y Cwm 5 Hydref –
Trebor Edwards 21 Medi –
Dweud eich Ddweud 21 Medi –
ac wedyn…
NOS SADWRN
Pobol Port 22 Medi –
SuperTed 29 Medi –
Sion a Sian 17 Tachwedd –
Y Maes Chwarae 22 Medi –
NOS SUL
Margaret Williams 14 Hydref –
Wil Cwac Cwac 28 Hydref –
Rhaglen Hywel Gwynfryn 30 Medi –
Dramâu byr 7 Hydref –
Dechrau Canu, Dechrau Canmol 30 Medi –
Hywel Morgan 18 Tachwedd
S4C
LLON-GYNYRCHIADAU'R HYDREF

# COFIO STEDDFOD '65

Ychydig iawn o weithwyr mewn swyddfa Eisteddfod sy wedi cael y profiad o bacio parseli a chyfeirio amlenni i gyfeiliant 'Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn' neu 'Here comes the Bride'. Ond yn 1964 sefydlwyd swyddfa Eisteddfod Caerdydd mewn stafell yn Eglwys Dewi Sant ac ar adeg angladd neu briodas fe fyddai seiniau'r organ i'w clywed yn glir drwy'r waliau. Un o'r gweithwyr yno oedd Myfanwy Jarman a mae'n cofio'n iawn am yr ymdrech i gadw'n dawel rhag amharu ar y gwasanaethau.

Gofynnwyd i Myfanwy a Beti Wyn Jones (yn awr yn Llandrillo-yn-Rhos) helpu gyda'r gwaith o drefnu'r Eisteddfod ar ôl i'r hysbyseb am ysgrifenyddes fethu a denu ymgeisydd - sefyllfa hollol anghredadwy heddiw.

Yn ôl yr hanes doedd tawelwch ddim yn un o nodweddion amlyca'r swyddfa. Criw hwyliog hapus oedd yno - John Hughes a Dafydd Jones, y ddau drefnydd o swyddfa'r Urdd ac Edith, gwraig Dafydd yn cynnal y gwaith o ddydd i ddydd gyda dipyn o help a hiwmor gan ymwelwyr fel John Lane, Evan Isaac ac Huw Cedwyn Jones.

'A gan fod cymdeithas Cymry Caerdydd mor glos bryd hynny' meddai Myfanwy 'roeddem ni'n nabod pawb fyddai'n taro i mewn ar drywydd ddarn-gosod neu docyn, ac yn cael clonc a phaned efo nhw'.

Ar waetha'r hwyl a'r mynd ar y Typhoo Tips (neu, efallai, o'u herwydd) aeth y trefniadau yn eu blaenau'n llwyddiannus gyda ymweliadau ysbeidiol gan 'R.E.' i'w goruchwilio. Yn ystod rhuthr y wythnosau ola' bu'n rhaid rhoi sglein ar y cwpanau a'r tariannau ar gyfer y cystadleuaethau - dipyn o gamp o gofio bod cwpan Pant-y-Fedwen yn eu plith! (I'r sawl sy heb weld y cwpan digon yw dweud bod cyd-weithwyr Myfanwy wedi ei chodi rhyw fore, a'i gosod i eistedd ynddi).

Erbyn hyn mae Myfanwy, mam Tonwen, Geraint a Catrin ac athrawes yn Ysgol Gymraeg Caerffili yn edrych ymlaen at Eisteddfod '85. Fel llywydd cangen Caerdydd o Ferched y Wawr (am yr ail flwyddyn yn olynol) mae'n gobeithio gweld llawer yn troi i mewn i'w pabell ar y maes. Bydd yno groeso - ac hwyl a chlonc a phaned.



Cofio 'Steddfod '65
Daeth dau ateb i'r cwestiynnau ynglyn a llun y Coroni. Cafwyd galwad ffon oddi wrth Mrs Mary Owen i ddweud ei bod yn tybio maicyfeilles o ddyddiau Coleg Cyncoed, Mary Mosems Jones o Aberystwyth yw'r ferch fane y tu cefn i Robin Gwyndaf. Deallwn mai Sion, mab Havard Gregory, yw'r gwr ifanc sy'n cyflwyno'r goron mor urddasol.

A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
**GWENAN**
**CAERDYDD 732233**
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.

GWAHODDIAD Y GWYDDONWYR

Bydd Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd yn dechrau tymor newydd o weithgaredd Nos Lun, 15 Hydref am 8 o'r gloch. Eleni, am y tro cyntaf, cynhelir cyfarfodydd y Gymdeithas yng Nghlwb Ifor Bach yn hytrach nag yn Athrofa'r Brifysgol. Hefyd newidir y noson i Nos Lun yn lle Nos Iau.

Mae'r Cadeirydd, Mr. Glynn M Owen, yn awyddus i dynnu sylw'r ffyddloniaid at y newid yn y trefniadau ac yn gwahodd aelodau newydd, yn arbenigwyr a lleygwyr, i ymuno a'r Gymdeithas. Diffygion y thyroid yn y newydd-anedig fydd pwnc y cyfarfod cyntaf Nos Lun, 15 Hydref a'r darlithydd fydd Dr. Ieuan Hughes o Goleg Meddygol Prifysgol Cymru.

holl lyfrau Cymru ynghanol y dref
Oriel
Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru 53 Heol Siarl Caerdydd Ffôn: 395548
Catalogau ar gael

MERCHED Y WAWR

Cynulliad bychan ddaeth ynghud i groesawu rhai aelodau newydd ac i wrando ar Eiry Palfrey yn trafod Astraleg a'i gymryd o ddifri'. Ryw chwarae plant iddi hi yw'r siartiau welir yn ein papurau. Ymchwilia'r astralegydd i bwrpas a threfn bywyd. Ymgais yw i dda ddangos grym ynni anweledig a rhagfarn wedi ei fagu gan anwybodaeth sy'n ei ddiystyrru. O'i sgwrs fywiog cododd cryn drafodaeth.
Yn absenoldeb ein llywydd, cymerwyd at yr awenau gan Mrs Buddug Lloyd. Diolchwyd i'r siaradwraig gan Mrs Kathleen Wood. Swyddogion cangen Caerdydd eleni yw:

Mrs Myfanwy Jarman (Llywydd)
Mrs Rosemary Davies (Ysgrifennydd)
Mrs Gaynor Maddocks (Trysorydd)

# COLOFN YR HARPŴN

Gair o eglurhad.

Daeth dictat oddi uchod gan Bolitbwro golygyddol Y DINESYDD i newid enw y golofn farddol fisol. "Rhywbeth modern," meddai'r llais cras ar ben draw'r wifren deliffon, "Rhywbeth bachog". Cliciodd y lein ac aeth y wifren yn fud.

Felly dyma ni.

Y cyfrannwr cyntaf i'r golofn yw Iwan Llwyd. Mae Iwan sy'n hannu o Fangor yn gweithio yn y Brif-Ddinas ers rhyw chwe mis bellach. Cyhoeddwyd ei gyfrol gyntaf "Sonedau Bore Sadwrn" yng nghyfres Beirdd Answyddogol Y Lolfa. Cafodd dderbyniad gwresog ym mhob cwr bron (ei gyfrol hynny yw). Mae datblygiad hynod wedi digwydd yn ei waith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Daeth tinc o siniciaeth i mewn i'w ganu, ond siniciaeth adeiladol sy'n gweld gobaith mewn dryllio delwau er mwyn gwneud lle i arbrofi.

BARDDONI (yn Gymraeg)

Ydi o fel bod mewn pub yn Llundain?
Ydi o?
Y siarad unig a thi dy hunan
a neb yn gwrando:
heb yno neb a wybu adnabod,
neb yn perthyn,
a'r geiriau yn cronni cyn syrthio
i waelod diod rhywun:
yn ceisio sgwrs, yn creu ystrydebau
ac yn ail-dreulio
y tir, y tywydd, man ddigwyddiadau
a'r neb sy'n gwrando:
yn osgoi sylwedd wrth geisio sylw
a chadw cwmni,
a channwyll olaf cyfnos gwelw
yn prysur doddi:
ydi o fel bod mewn pub yn Llundain
a'r nos ar dorri?

IWAN LLWYD.

---

# Y SILFF LYFRAU

John Idris Owen: GWYN EU BYD YR ADAR GWYLLTION (Gwasg Gomer £2.50) & Y TŶ HAEARN (Llys yr Eisteddfod Genedlaethol/Gwasg Gomer £2.00. Selyf Roberts (addas.) TRWY'R DRYCH A'R HYN A WELODD ALYS YNO (Gwasg Gomer £2.25)

---

Tipyn o gamp i awdur yw cyhoeddi dwy nofel yn ystod yr un wythnos ac un ohonynt yn deilwng o Fedal Ryddiaeth yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyna a wnaeth John Idris Owen ym mis Awst eleni. YnGWYN EU BYD YR ADAR GWYLLTION cawn hogyn tŷ capel yn rhoi cip inni ar ei blentyndod a'i lencyndod, gan ddangos sut y tyfodd yr awydd am ryddid yn rhan hanfodol bwysig o'i gymeriad. Ceir darlun byw o'i blentyndod darllenydd yn uniaethu a'r bachgen ac yn poeni yn ei gylch. Dyna'r arswyd a'r rhewi, er enghraifft, wrth iddo ddringo clogwyn peryglus.

Mae marwolaeth ei dad, a salwch ei fam yn ddiweddarach, yn brofiadau diddy
brofiadau dirdynnol ac mae caredigrwydd y gweinidog yn gofiadwy hefyd. Ar hyd y nofel ceir ymadroddi gtymus a chyffyrddiadau tafodiaethol derbyniol. Mae'r sgwrs, yn aml, yn fflachio.

Mae tuedd i ailadrodd ymm mhenodau 8 a 9 ond dyma'r unig nam ar y nofel ddarllenadwy hon,

---

Yn Y TŶ HAEARN, enillydd Medal Ryddiaeth 1984, ceir dyddiadur Cymro sy'n ei gael ei hun, yn ddamweiniol bron, mewn lloches niwcliar o dan ganolfan ddinesig tref hynod debyg i'r Wyddgrug, am ddeng niwrnod yn dilyn cyrch niwcliar. Mae'r cyffro cychwynnol a'r damcaniaethu gwleidyddol yn ddiweddarach yn argyhoeddi. Dichon mai fel hyn y bydd rhyfel niwcliar yn digwydd - yn gwbl ddirybydd, a'r llywodraeth a'r cyfryngau wedi celu'r ffeithiau rhagom rhag achosi panig a gwrthryfel.
Diddorol hefyd yw'r Sais sinistr, Whiteson, ei ddawn i fygwth pawb a'r modd y mae'n llwyddo i ddiflannu yn y diwedd. Ond, gwaetha'r modd, difethir y nofel i raddau gan y cecru parhaus rhwng Cymry a Saeson, y traethu ffeithiol am arfau niwcliar a'u heffeithiau, a'r mynych gyfeiriadau llenyddol nad ydynt yn codi'n naturiol o'u cyd-destyn.

Stori gyffrous, felly, yn dioddef yn sgil awydd yr awdur i greu argraff mewn cystadleuaeth arbennig. Fe lwyddodd, wrth gwrs.

Mae TRWY'R DRYCH A'R HYN A WELODD ALYS YNO yn addasiad campus gan Selyf Roberts o THROUGH THE LOOKING GLASS gan Lewis Carroll. Lluniwyd y gyfrol ryfedd hon, sydd ar unwaith yn ddigri, yn ddwys ac yn iasoer, fel cyfrwng i ddysgu egwyddorion chwarae gwyddbwyll i ferch fach, ac mae'r datblygia iadauyn y stori yn cyfateb i raddau helaeth iawn i'r symudiadau posibl yn y gem honno. Mae rhesymeg ddereswm y stori yn ogleisiol a'r addaswr yn llwyddo'n rhyfeddol i drosi'r mynych gerddi sydd yn y gwreiddiol ac i gyflwyno hiwmor sy'n dderbyniol ar ystyron geiriau. Rhaid imi fynd ati yn awr i ddarllen addasiad Selyf Roberts o ANTURIAETHAU ALYS YNG NGWLAD HUD.


TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD

# Parabl Parry

Newydd ddod yn ôl ar ôl bod yn ffilmio yn ardal Rhandirmwyn, a choedwig y Rhaeadr (ar gyfer Awyr Iach wrth gwrs). Ffilmio troad y rhôd oeddem ni, ffilmio'r symyd sydyn o dymor yr Haf i'r Hydref. Sylwi ar aeron a ffrwythau'r mwyar, y ddraenen ddu a'r griafolen.

Er yr holl sychdwr a'r bygythiad y byddai'n rhaid rhannu bath hefo rhywun mae'r hydref eleni yn llwyddo i fod mor ogoneddus ag erioed - lliw coch a porffor yr aeron, lliw melyn, oren a coch dail y coed wrth iddyn nhw araf grino - ond does dim rhaid telynegu a mynd i Randirmwyn, Talybont na'r Felinheli i weld yr Hydref ar ei gore - mae hi yma yng Nghaerdydd yr un fath. Bwch am orig i gerdded Parc Cathays, Parc y Rhath, Caeau Sain Ffagan, a dyna i chi braf fydd cerdded palmentydd Heol yr Eglwys Gadeiriol ymhen rhyw wythnos bythefnos - i fyny at eich fferau mewn dail sychion sy'n crensio dan eich traed.

Mi ydwi mewn am wledd wrth godi'n y bore am y mis nesa ma gan mod i'n byw uwchben y lôn o goed sy'n arwain i gaeau Llandâf o gyfeiriad Heol yr Eglwys Gadeiriol - mi ydwi'n gweld eu brigau ucha nhw rwan a'r dail yn crino rhyw fymryn bob dydd - daw fe ddaw y melyn a'r oren a'r brown yna'r cwymp - cwymp y dail. Ond na hidiwch dyna hi wedyn yn dymor au a stwnsh rwdan.

## Torth o Fara

Nid wyf yn un sy'n prynnu llawer o beiriannau trydan ar gyfer paratoi bwyd ond mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod, ar ôl pendronni tipyn, wedi cael peiriant prosesu bwyd (food processor). Penderfynnais brynu'r peiriant yma yn lle chael cymysgwr bwyd mawr fel y Kenwood Chef gan nad oedd anghen prynu cydfannau ychwanegol iddo i wneud gwahanol dasgau. Gellir cymysgu, briwio, asio, golwytho, carpio a thafellu yn llwyddianus heb gael cydfannau ychwanegol ond mae'n rhaid cofio bod y peiriant yn gweithio'n gyflym iawn ac mae angen gofalu peidio ei adael ymlaen am ormod o amser! Gan fy mod yn gwneud llawer o fwydydd sy'n defnyddio llysiau wedi'u carpio neu thafellu ac yn coginio ar gyfer y rhewgell mae'r peiriant prosesu'n arbed tipyn o amser. Gellir gwneud crwst brau a bara ynddo'n rhwydd iawn er nad yw'n cymryd mwy na phwys o does ar yr un pryd. Mae'n gyfleus hefyd i baratoi pate, shwtni a marmalêd.

Ceir dau wahanol fath o beiriant prosesu - un sydd a modur yn gyrru belt sydd yn ei dro yn symyd y gwerthyd a'r llafn ar llall lle mae'r modur yn uniongyrchol yn gyrru'r gwerthyd a'r llafn. Mae modelau o'r ail fath yn rhatach na'r rhai sydd a belt ond yn llai pŵerus. Os ydych yn mynd i ddefnyddio'r peiriant yn gyson ac am amserau hir dewiswch un sy'n cael ei yrru gan belt.

Dylid edrych am y pwyntiau canlynol pan yn prynu peiriant prosesu:-

1. A oes ynysiad dwbl i'r peiriant?
2. A oes mwy na un sbîd arno - mae mantais mewn cael mwy nag un sbîd os ydych am ddefnyddio'r peiriant i wneud llawer o brosesau.
3. A ydi'r peiriant yn hawdd i'w olchi - hyd yn oed mewn peiriant golchi llestri?
4. A oes modd i'r peiriant atal gweithio pan fydd gormod o gynhwysion ynddo? - mae hyn yn arbed y modur or-weithio a'i ddifrodi.
5. Faint yw cynhwysedd y fowlen? Os ydych yn paratoi swm mawr o gynhwysion ar yr un pryd efallai byddai peiriant cymysgu fel y Kenwood Chef yn well ar gyfer eich anghenion.

Un anfantais gyda'r rhan fwyaf o'r peiriannau prosesu yw nad ydynt yn chwipio gwyn ŵy nac yn gwneud spwng gyda'r dull chwisgio yn llwyddianus iawn.

Mae sawl gwahanol cwmni yn gwneud peirianau prosesu, bydd y dewis yn y pen-draw i fyny i chwi. Yr un brynais i oedd Toshiba model TFP 1200 - mae un drutach i'w gael gan yr un cwmni sydd a 6 spîd ac fe ellir ei raglenni i weithio ar wahanol spîd am amser a osodir ganddoch.

CACEN OREN A SGLODION SIOCLED

1 oren
4 owns o siocled plaen
8 owns o fargarin
8 owns o siwgr mân
4 ŵy
8 owns o flawd codi

Tun cacen crwn 8½"-9" wedi ei iro. Torrwch yr oren, wedi ei chroenio, 18 darn, dodwch yn y peiriant prosesu gyda llafn dwbl am 5-10 eiliad. Ychwanegwch y siocled wedi ei dorri'n sgwariau, rhowch y peiriant ymlaen am 10 eiliad arall. Ychwanegwch y cynhwysion eraill a rhedwch y peiriant am 30-40 eiliad nes bod y cynhwysion wedi eu cymysgu'n dda. Dodwch y cymysgedd yn y tun; coginiwch y gacen am tua 1 awr 20 munud ar rwy 4, 180°C. Gadewch iddi oeri yn y tun wedyn, llifwch siocled wedi ei doddi drost y top ac ysgeintiwch gnau wedi'u malu'n fân dros y siocled.

# DECHRAU TYMOR

Y peth diwethaf ma unrhyw un yn dymuno ei gael wedi dychwelyd o'i wyliau ydi newyddion drwg. Meddyliwch am y fath siom tra'n tyrchu trwy'r pentwr llythyrau a chardiau bingo wrth ddrws y tŷ ar ôl cyrraedd adref a chael nodyn mewn ysgrifen fler, frysiog, ar bwt o amlen yn darllen fel a ganlyn - "Rhod - Clwb Cymric wedi cael dyrchafiad - Duw a'n helpo - Huws". Roedd 'na gryndod yn y llaw tra'n darllen, a gwelw oedd y wep wedi'r ail-ddarllen drachefn a thrachefn. Clwb Cymru yn chwarae yn adran gyntaf, Cynghrair Caerdydd a'r Cylch am y tro cyntaf yn ei hanes a minnau yn teimlo siom a diflastod - "hold-on" meddwn i. Be mae o'n feddwl, be mae o'n olygu? Ar yr olwg gynta', andros o fistec! Sut ar wyneb y ddaear ma coesau a chorff nad oedd yn ddigon heini i'r ail adran yn mynd i ddygymod â bwrlwm a chyflymdra'r adran cyntaf? Bydd pawb o leiaf flwyddyn yn hŷn na dechrau'r tymor diwethaf - ac mae hyn yn y cyswllt yma yn golygu hen i un neu ddau credwch chi fi! Faint yn fwy o blastar elastoplast a chadachau fydd ei angen i gadw'r penagliniau yn sownd i weddill y goes, a honno wedyn i'r droed, ac ail-adrodd y perfformans ysbyty hwn o flaen pob gêm a'i ddad-wneud wedi naw deg munud!
Problemau ddywedsoch chi, dirifedi, a hynny cyn i'r tîm droedio'r maes am ei gêm gyntaf yn yr uchelfannau yma. Ond och, fedrwch chi ddim credu'r problemau oedd yn bodoli wedi'r chwiban gyntaf atseinio i gychwyn y gêm honno. Roedd yn nos Fawrth felfedaidd o Fedi a Pharc Sevenoaks fel bwrdd snwcer ail-law a'i olwg yn well na'i deimlad. Roedd y gwrthwynebwyr, Grange Quins, yn llawn hyder a bri wedi ennill y gynghrair y tymor blaenorol, a ninnau prin yn adnabod ein gilydd wedi hirlwm yr haf. Ambell un a mwy o fol nag arfer, ac esgidiau newydd am droed un arall yn golygu un a'i ei fod yn awchu am dymor arall, neu nad oedd o rioed yn berchen ar bar o sgidiau tan i Emyr ofyn iddo oedd o'n ffansi gêm fach o ffwtbôl! Ta waeth, fe aeth y cicio yn ei flaen o droed i droed i ben i goes i'r gôl a hynny yn rheolaidd ddeng waith iddyn nhw a dwy waith i ni. Dyna fedydd ynte, chwip din go iawn a ninnau tra'n ymlwybro'n ôl i'r stafell newid, yn gwybod o'r gorau ein bod wedi cyrraedd yr adran gyntaf. Gwireddu breuddwydion Huws a'm hofnau mwyaf innau. Y syndod mwyaf yn wir oedd sylweddoli fod pawb yn awyddus i chwarae eto'r dydd Sadwrn canlynol jest i wneud yn siwr mai nid breuddwyd, neu'n wir hunllef, oedd y cyfan. (Martin a sgoriodd y goliau cyntaf yn yr adran uwch gyda llaw)

Yn erbyn Fairwater Social y chwaraewyd yr ail gêm, a hynny ar faes cyfarwydd Pontcanna, ac yn groes i'r disgwyl cafwyd buddugoliaeth seicolegol er yn colli o dair gôl i un o ran goliau. Choeliech chi ddim y fath bleser oedd i'w weld ar wynebau pawb ar ddiwedd y gêm wedi llwyddo i gadw'r sgôr i'r fath rifau. Eynon oedd yr un i ffendio'r rhwyd y tro hwn ac yntau felly yn dychwelyd wedi anlwc o briodi a'r pleser o anafu, neu fel arall rownd deudwch, yn ystod y tymor diwethaf.

Roedd gwell i ddod y Sadwrn canlynol, a chafwyd cofnod o fuddugoliaeth gynta'r tymor a'r adran gyntaf yn erbyn Rhymni Cons o dair gôl (gôl wych gan Gareth Roberts a dwy gan Rhodri)J. i ddwy, er mai yn eiliadau olaf y gêm y sicrhawyd y ddau bwynt. Mae un gêm gyfartal, un yr un yn erbyn Docks Albion hefyd i'w chofnodi, ac erbyn diwedd Medi mae fy ofnau mwyaf i'n dechrau cilio.

Croeso i'r chwaraewyr newydd sydd wedi ymuno â'r Clwb, ac mae Cerith a Huw eisoes wedi gwneud eu marc yn y tîm. Cewch hanes yr ail dîm y rhifyn nesa
Dyma'r canlyniadau hyd yma:-


v Wells United, colli 3-6
v Tremorfa, cyfartal 3-3
v Crown Rangers,ennill5-0
v The Centre, ennill,4-0
v Avenue Hotspur,ennill,3-2

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Mis lwcus iawn fydd hwn ymhob maes, gwaith, arian, serch. Ond cadwch eich tymer; thâl hi ddim i ypsetio neb.
TAURUS:Amser prysur iawn ond nid jam i gyd chwaith.Byddwch yn amyneddgar ac fe fydd pob peth yn olreit yn y man.
GEMINI:Mi fyddwch yn rhuthro fel gwennol o un man i'r llall y mis hwn ac yn gwneud tipyn o arian ar y ffordd; peidiwch â'i wario i gyd ar oferedd.
CANCER:Cyfnod o brysurdeb yn y cartref, peintio a phapuro neu symud hyd yn oed. Mae'r problemau fu gennych yn y gorffennol ar fin cael eu datrys.
LEO:Bydd 'na dipyn o fynd a dod a newidiadau sylfaenol yn y cartref yr Hydref yma, ond rydych chi'n siŵr o fedru ymdopi â'r cyfan. Cyfnod creadigol a lwcus tu hwnt,yn enwedig yn y gwaith.
VIRGO:Bydd eich sefyllfa ariannol yn gwella nawr - ac mi fyddwch yn teithio cryn dipyn - ac yn mwynhau pob munud.
LIBRA:Mwynhewch fis Hydref; dyma'ch mis arbennig chi. Mae pethau'n gwella i chi ymhob cyfeiriad nawr. Mae un pennod annymunol yn eich bywyd yn cau am byth.
SCORPIO:Mae hwn yn gyfnod o newid sylfaenol yn eich bywyd, mae'n bosib y byddwch yn teimlo'n gymysglyd am sbel ond fe fydd pob peth yn gweithio allan maes o law.
SAGITTARIUS:Efallai y teimlwch fod pwerau cudd yn gweithio yn eich erbyn, yn enwedig yn y gwaith, ond fe fydd eich bywyd carwriaethol yn anhygoel!
CAPRICORN:Cyfnod lwcus a chithau'n gwneud yn dda.Dyma'ch cyfle ola i wireddu'ch breuddwydion pennaf, a mi ddôn nhw'n wir ond i chi gael ffydd yn eich gallu.
AQUARIUS:Bydd eich gyrfa ar i fyny'r mis hwn. Rydych chi'n haeddu llwyddo; mi fuoch yn amyneddgar yn ddigon hir. Mwynhewch!
PISCES:Digon o deithio'r mis hwn - ac amser prysur gyda chlybiau a chymdeithasau. Efallai y bydd cyfaill yn pwyso arnoch chi - byddwch yn garedig wrtho.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn  RHIF 46



## AR DRAWS

1. Cant o rai annwyl ymhlith y diolwg yn cymharu, (ond fel rheol yn methu) (3,7)
9. Fel roedden nhw'n dallt ers talwm (4)
10. Mae'n bosib ei weld. (10)
11. Barnodd y gellir poeni ohono. (6)
12. Cyn hired â hyd y gôg mudol. (7)
15. Rhoi'r sac i Ben a achosodd atgasedd. (7)
16. Yn ddiau, dyma fel roedd hi gynt. (5)
17. Dygna arni! (4)
18. Chwaer-ynys Ronech. (4)
19. Cawell i gadw adar brith? (5)
21. Llŷn neu Gŵyr neu Cilgwrli.(7)
22. Diwaith a diymgeledd! (2,1,4)
24. Yr oedd mamgu yn ei gymysgu felna i wneud bara. (6)
27. Gair a wyddost, wedi colli rhywun, sy'n creu cynhesrwydd. (10)
28. Pum cant pum deg un, a dim o'u blaenau, yn cydseinio.(4)
29. Paratô di i'r daith. Ie, byddi'n dod ar draws estroniaid.(10)

## I LAWR

2. Damwain a ddigwydd yn y canol pan â plentyn ar draws y ffordd. (4)
3. Sedd anesmwyth yw'r cyfryw beth. (6)
4. Nef o ddydd sydd i'w gael yn y fath lochesau. (7)
5. "Ac ---- elwch, tawelwch fu". (4)
6. "Y -------- gynt, lle bu'r gân". (7)
7. Yn ddistaw bach, rhyngom ni a'n gilydd, mae'r cyrnol a'i faich mewn tipyn o ddryswch. (10)
8. Nid yw ar gael gan y cyhoeddwyr. (4,1,5)
12. Disgrifiad sy'n gyffredin rhwng y beddau ym Mathew XXIII (yn y cyfieithiad newydd) a "Morgannwg, muriau gwynion". (10)
13. Y gŵr fel arth yn codi mewn annhrefn. (10)
14. Mawddwy neu Dinlle neu Powys. (5)
15. Sticill. (5)
19. Ni fedrwch ddal mwy. (7)
20. Paratoad da am bryd o fwyd(7)
23. Nid oes ei angen ar slipar.(6)
25. Archesgob Caerefrog yn stwrian yn gynnar? (4)
26. Ddatryswr mwyn! (4)

Tocyn llyfrau eto y mis hwn. Rhowch enw neu ffugenw a chyfeiriad ar ymyl Croesair Rhif 46 a'i anfon erbyn Hydref 20fed at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.

## CYSTADLEUAETH RHIF 45


Sachliain a lludw! Ap Lewsyn yn cyfaddef bai. Gadwyd un cliw allan, sef 24 i lawr.
Er hynny, cafwyd pump datrysiad cywir (o anwybyddu 24 i lawr). Yr enw a ddaeth O'r het oedd eiddo Dewi Nantglyn, sef Mr R D N Bateman, 96 Pendwyallt. Yr Eglwys Newydd. Bydd tocyn llyfrau Cymraeg am £5 yn ei gyrraedd gyda hyn.
Y pedwar arall oedd ARR(Abertawe); BT(Cyncoed); Julia Lloyd (Ger y Llyn); ac Hugh Rees (Llantrisant).

## DATRYSIAD RHIF 45 (MEDI)

AR DRAWS: 1. AMHLEIDIOL; 6. FFALD; 10. MYND WRTH EI BWYSAU; 11. NIWEIDIOL; 12. UNLLIW; 13. CREFFT; 15. DILLADU; 19. BARUGO; 20. DINAG; 23. ARAFA; 24. GWOBRWYOL; 26. NI WELWYD EI DEBYG; 27. URDDO; 28. NANT Y MYNYDD.

I LAWR: 1. ALMANAC; 2. HYNAWSEDD; 3. ELWAI; 4. DATHLIADAU; 5. ORIEL; 7. ARSYLLU; 8. DEUSWLLT; 9. AWDURDOD; 14. TRAFAELU; 16. LLUOSOGENT; 17. YN SYTH BIN; 18. GWADNAU; 21. GOLYGYDD; 22. CADWODD; 24. GWYRA; 25. RYDYM.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367




## ARCHEB BANC

At y Rheolwr..............(Banc)

.....................(Cyfeiriad)

..............................

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis.......... bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb gennyf mewn ysgrifen y swm o .............. (mewn geiriau) £......(mewn ffigurau).

Arwyddwyd ......................

Cyfeiriad ......................

................................

Rhif ac enw'r Cyfrif............

................................

Dyddiad ................

Dylid anfon y ffurflen uchod at:
LYNN JONES, 30, Highfields, Llandâf, Caerdydd, CF5 2QB

# PYTIAU

Cynhaliwyd bore coffi llwyddiannus iawn yng ngardd brydferth Mrs. Nansi Richards yng Nghyncoed ar fore Sadwrn, Awst 18fed. Daeth ryw 60 o wynebau cyfarwydd o gylch Ty'r Cymry a'u cyfeillion at ei gilydd am baned a sgwrs. 'Roedd rhywbeth yno at ddant pawb - melysion, cacennau, marmalêd arbennig Nansi, ac amryw o stondinau. Casglwyd swm sylweddol o £90 tuag at Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Diolch i bawb a fu wrth y llyw, y rhai a gyfrannodd, ac yn arbennig i Nansi.

DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i Manon Wyn merch Eryl ac Avril Thomas a Ieuan mab Gethin a Thelma Evans, Trecynon, Aberdâr. Mae'r ddau yn adnabyddus i dô ifanc Caerdydd.

PRIODAS: Yn ddiweddar priodwyd Rowena Jones â Rowland Jones yn y Bala. Mae'r ddau yn ymgartrefu ym Mhenarth. Priodas dda i chi.

CROESO'N ÔL: Edrychwn ymlaen at groesawu Rhys Griffiths yn ôl i Gaerdydd. Symudodd i Ysgol David Hughes, Porthaethwy flwyddyn ôl ond mae'n dychwelyd i'r Ysgol Feddygol i ddechrau ar ei gwrs.

DYWEDDIAD: Llongyfarchiadau i ddau sydd ar staff S4C - sef Richard Foxhall a Sandra Williams.

Ar Fedi 8 fed yng Nghapel y Tabernacl, Y Barri, priodwyd Siriol Evans, Gwenfo, a Robert Roberts o Lanrymni. Bydd Siriol sy'n rhan o dim Helo Bobl, a Bobs yn ymgartrefu yn yr Eglwys Newydd. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Dymunwn hir oes a phob hwyl i Gruffydd Owen o San Ffagan ac Ann Thomas o Gae Athro - priodwyd y ddau yng Nghapel Saron, Pen y Groes, Gwynedd ar ddydd Sadwrn Medi 22ain.

Llongyfarchiadau cynnes i Gareth Jones, Y Waun, ar ei benodiad yn Ddirprwy Brifathro Ysgol Gyfun Llanrhymni.

Oes 'da chi lwythi o amlenni i'w cyfeirio, a dim awydd nac amser i wneud y gwaith?

Cysylltwch â ni - mamau ysgol feithrin Llandaf - ac fe wnawn y cyfan â gwên ar ein gwep! Ffoniwch Sheila (30042) neu Julia (42907).

Mae Cylch Meithryn Pentyrch yn awyddus i gael piano mewn tiwn ar gyfer y tymor cyfredol. Gyrrwch nodyn at Gill Rees neu canwch gloch ei theliffon os y gallwch helpu: Pentyrch 890571

# CYSTADLEUAETH



PWY ALL DDYFALU BLE MAE'R GYNNAU YMA? Os gwyddoch, anfonner eich atebion at Rhodri Gwyn Jones, 4 Maes y Sarn, Pentyrch, Morgannwg Ganol.

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru wrth baratoi'r Dinesydd.


# Cynhyrchwyr/ Cyfarwyddwyr

Fel rhan o gynnydd pellach yn y cyflenwad o raglenni i S4C y mae angen llenwi dwy swydd Cynhyrchydd/Cyfarwyddwr yn ein canolfan yng Nghaerdydd. Prif swyddogaeth y rhai a benodir fydd gofalu yn y lle cyntaf am raglenni comedi sefyllfa ac adloniant ysgafn. Bydd angen hefyd iddynt gynhyrchu a chyfarwyddo rhaglenni eraill y cwmni o bryd i'w gilydd. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus weithio trwy gyfrwng adnoddau stiwdio, ffilm ac offer teledu allanol.

Rhaid i'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o ddawn gynhenid, diddordeb brwd yn y meysydd priodol, a gwybodaeth drylwyr o dechneg cynhyrchu teledu. Bydd ganddynt y bersonoliaeth i arwain tim medrus a phrofiadol, ynghŷd ag ymwybyddiaeth glir o ffactorau ariannol. Bydd hyfforddiant ar gael i'r rhai sydd heb brofiad penodol mewn cyfarwyddo, ond ni dderbynir ceisiadau i'r swydd bwysig yma gan ymgeiswyr nad ydynt â phrofiad helaeth ym myd darlledu.

Dylai ymgeiswyr cymwys ysgrifennu am ffurflen gais, gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig, a nodi y cyfeirnod DI/388, at Y Rheolwr Staffio, HTV Cyf., Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWR CYFLE CYFARTAL

HTV

FP 1088